

**ADRODDIAD Y RHEOLWR GWASANAETHAU
GWEINYDDOL A DEMOCRATAIDD**

PWNC:

Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

Bydd yr Aelodau'n gwybod eisoes fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg. Y Cynllun hwnnw sy'n pennu sut fydd yr Awdurdod yn arfer yr egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Adroddiad Monitro blynyddol ar ei berfformiad ar sail y Cynllun, a chyflwyno'r adroddiad i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad monitro, a gaiff ei ddosbarthu i'r Aelodau, wedi'i gosod o dan benawdau penodol, ac ar ffurf sy'n cydymffurfio â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt.

Mae'r Comisiynydd yn y broses o ffurfioli Safonau fydd yn ymdrin ag egwyddorion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cyflenwi gwasanaethau;
- llunio polisïau;
- gweithredu;
- hyrwyddo, a
- chadw cofnodion.

Law yn llaw â'r Safonau, rhestrir nifer o weithgareddau perthnasol, a rhaid i'r sefydliadau sicrhau bod pob gweithgaredd a restrir ac a gynhelir ganddynt fel rhan o'u swyddogaethau arferol, yn cydymffurfio â'r Safonau. Yn y dyfodol, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ar ei berfformiad mewn perthynas â'r Safonau.

ARGYMHELLIAD:

Bod yr Aelodau'n cadarnhau'r adroddiad i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Papurau cefndir:

Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Adroddiad Monitro Blynyddol 2011/12

(Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Janet Evans, y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ar estyniad 4834, neu drwy anfon e-bost at janete@pembrokeshirecoast.org.uk)



CYNLLUN IAITH GYMRAEG PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO: ADRODDIAD MONITRO 2011/12

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gorff llywodraeth leol annibynnol, a sefydlwyd yn unol â Deddf yr Amgylchedd 1995, a ddaeth i'w llawn rym ar 1 Ebrill 1996. Ein hamcanion (fel y'u hailddiffiniwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995) yw:
- gwarchod ac ychwanegu at harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.
 - rhoi gwell cyfle i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig yr ardal, ac, wrth wneud hynny -
 - mynd ati i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn y Parc.
- 1.2 Mae'r Awdurdod yn cael ei lywodraethu gan 18 Aelod, a phenodwyd 12 o'r rheini gan Gyngor Sir Penfro a 6 gan Lywodraeth Cymru.
- 1.3 Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros ardal o 612km² a dyma un o barciau mwyaf dwys ei boblogaeth ymhlith 15 parc cenedlaethol y DU. Mae tua 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 ardal cyngor cymuned. Yng nghyfrifiad 2001 roedd 21.5% o drigolion Sir Benfro, a 23.5% o drigolion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gallu siarad Cymraeg. Er bod y ffigur hwn yn dangos cynnydd o 3.9% ers cyfrifiad 1991, yr oedd hefyd yn dangos gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn rhai Wardiau.
- 1.4 Ar 31 Mawrth 2011, roedd 20% o weithlu'r Awdurdod wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Mae hynny'n ostyngiad bychan ar ffigur y llynedd, sef 21%.
- 1.5 Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n bennaf gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg, er bod yr agweddau ymarferol bob dydd wedi'u dirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd.

2. Hyfforddiant gloywi iaith

Yn yr adolygiadau perfformiad a gynhelir gyda'r holl staff, nodir yr angen (neu'r cyfle) i ddysgu Cymraeg. Pennir y cwrs mwyaf priodol ar gyfer yr

unigolyn dan sylw, boed hynny yn ystod oriau gwaith neu fin nos. Fel arfer, caiff y cyrsiau eu hariannu gan yr Awdurdod.

3. Ymwybyddiaeth o'r iaith

Caiff pob aelod newydd o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith fel rhan o'r broses gynefino. Rydym hefyd yn ystyried darparu sesiynau mwy ffurfiol gyda darparwyr allanol i feithrin ymwybyddiaeth o'r iaith.

4. Cyfieithwyr

Mae pob un o'r cyfieithwyr a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Bydd gofyn i unrhyw gyfieithwyr newydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod ddangos eu bod yn aelod o'r Gymdeithas honno.

5. Cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad

Caiff y Dangosyddion Perfformiad yn y Cynllun eu hadrodd yn flynyddol yn Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Caiff perfformiad ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a ffurfiwyd yn ddiweddar.

6. Gweithio gyda phartneriaid

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ffurfio neu ymuno ag unrhyw bartneriaeth newydd ar ran yr Awdurdod. Pan gaiff adroddiadau eu cyhoeddi ar y cyd gan bartneriaethau y mae'r Awdurdod yn ymwneud â nhw, bydd y swyddogion yn sicrhau fod y sefydliad sy'n arwain yn gwybod am ofynion cynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod.

7. Gwasanaethau a gyflenwir gan sefydliadau eraill ar ran yr Awdurdod

Caiff rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu i'r cyhoedd eu cyflawni ar ein rhan gan sefydliadau, asianaethau etc eraill. Ar 24 Chwefror 2011 mynychodd Swyddog Prosiectau Adeiladu'r Awdurdod ddigwyddiad a gefnogwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch y Gymraeg a rhoi gwasanaethau cyhoeddus allan ar gontract.

8. Cyhoeddiadau

8.1 Cyhoeddiadau i ymwelwyr a/neu gyhoeddiadau gweithgareddau

Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi nifer o gyhoeddiadau ac mae'r rheini i'w cael o'r pencadlys ym Mharc Llanion neu o'r canolfannau yn Oriel y Parc, Dinbych-y-pysgod, Trefdraeth, Caeriw a Chastell Henllys. O'r 24 taflen ddi-dâl, mae 14 ohonynt yn ddwyieithog, a chaiff 3 arall eu cyhoeddi'n fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Caiff ein taflen wybodaeth gyffredinol ei chyhoeddi mewn 6 iaith, sef Cymraeg, Iseldireg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Phwyleg. Yn Saesneg yn bennaf y cyhoeddir *Coast to Coast*, ein papur newydd yn yr haf, ond mae ynddo rai erthyglau Cymraeg (yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg).

Serch hynny, rydym hefyd yn lanlwytho fersiwn ‘tudalennau tro’ Cymraeg ar ein gwefan.

O’r 26 cyhoeddiad a gaiff eu gwerthu, mae 19 ohonynt yn ddwyieithog ac mae 4 arall yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. O’r tri sy’n weddill, caiff dau eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig, ond ni chânt eu hailargraffu pan ddaw’r stoc bresennol i ben. Yn Saesneg yn unig y mae’r cyhoeddiad arall – *Pembrokeshire Beaches Guide* – ond mae’n cynnwys capsïynau Cymraeg o faint mawr.

Ceir rhestr o’r cyhoeddiadau hyn yn Atodiad 1.

8.2 Cyhoeddiadau corfforaethol

Rydym hefyd yn paratoi amryw o gyhoeddiadau corfforaethol, a cheir rhestr o’r rheini yn Atodiad 2.

O’r 14 a restrir, mae 11 yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Yn Saesneg yn unig y cyhoeddir y gweddill.

8.3 Cyhoeddiadau mewnol

Cyhoeddiad newyddion mewnol ar gyfer yr Aelodau a swyddogion yw *Parc Bethel*. Caiff ei gyhoeddi’n fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Caiff cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Cynrychiolwyr Staff eu cyhoeddi’n ddwyieithog.

8.4 Datganiadau i’r Wasg

Caiff pob datganiad i’r wasg eu cyhoeddi’n ddwyieithog.

8.5 Cyhoeddiadau Llwybr Arfordir Cymru

Cafodd yr Awdurdod gontract gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i farchnata prosiect Llwybr Arfordir Cymru. Lluniwyd y dogfennau canlynol gan drydydd parti o dan ein rheolaeth ni wrth gyflawni’r contract:

- Naw taflen fap (taflenni dwyieithog a gyfieithwyd gan Uned Gyfeithu Cyngor Cefn Gwlad Cymru)
- Gwefan (gwefan ddwyieithog, a gyfieithwyd gan Uned Gyfeithu Cyngor Cefn Gwlad Cymru)
- Pecyn ar gyfer y cyfryngau (fersiynau Cymraeg a Saesneg, a gyfieithwyd gan Quadrant, asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus Llwybr Arfordir Cymru)
- Taflen i’r wasg (fersiynau Cymraeg a Saesneg, a gyfieithwyd gan Quadrant, asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus Llwybr Arfordir Cymru)
- Deunyddiau a thafenni gwybodaeth ar gyfer y digwyddiad lansio (fersiynau Cymraeg a Saesneg, a gyfieithwyd gan Quadrant, asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus Llwybr Arfordir Cymru)

- Datganiadau i'r wasg (fersiynau Cymraeg a Saesneg, a gyfieithwyd gan Quadrant, asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus Llwybr Arfordir Cymru).

9. **Cymorth grant**

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sy'n llwyddo i gael cymorth grant o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy gyhoeddi pob llenyddiaeth, arwyddion etc yn ddwyieithog fel rhan o feini prawf y grant.

10. **Meddalwedd TG Cymraeg**

Mae modd i bob aelod o staff ddewis lawrlwytho'r feddalwedd Gymraeg ar eu cyfrifiaduron gwaith a gallant hefyd ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o system ddata Ffynnon. Hefyd, mae'r awdurdod yn bwriadu cyhoeddi system gyfrifiadurol adnoddau dynol newydd yn ystod 2012, a fydd yn cynnwys opsiwn iaith Gymraeg ar gyfer y staff.

11. **Dangosyddion perfformiad**

11.1 PI1: Gwasanaethau rheng flaen

11.1.1 Nifer a chanran y swyddi yn ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid a ddynodwyd yn swyddi lle mae'r "Gymraeg yn hanfodol" ac sydd wedi'u llenwi gan staff dwyieithog.

Nifer y:

Swyddi llawn amser cyfatebol:	3
Staff a gyflogir:	5
Siaradwyr Cymraeg:	
Rhugl:	1
Dysgwyr:	2
Canran:	60%

11.1.2 *Gwybodaeth ategol:*

Ym mharagraff 6.1.2 o'r Cynllun, nodir fel a ganlyn: 'Pan ddaw swydd yn wag, neu pan fydd swydd newydd yn cael ei chreu, byddwn yn asesu'r gallu ieithyddol y bydd ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd, a bydd hyn wedi'i ysgrifennu yn y proffil person perthnasol'. Cafodd y paragraff hwn ei gynnwys yn y Cynllun diwygiedig yn 2008, ac nid oes swydd wedi bod yn wag yn y Ganolfan Gyswllt ers hynny. Mewn gwirionedd, gyda'r ad-drefnu'n ddiweddar mae un swydd wedi'i hadleoli i adran arall o'r Awdurdod. Yn anffodus roedd y peson hwnnw'n un o'n dysgwyr, er y bydd ei hyfforddiant o ddefnydd, fel y mae eisoes wedi bod o ddefnydd, yn y tîm hwnnw yn lle hynny.

11.1.3 Y Ganolfan, serch hynny, yw'r prif fan cyswllt ar gyfer y cyhoedd, ac mae'n hanfodol felly fod y staff a gyflogir yno yn ddwyieithog. Bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw swyddi gwag yn y dyfodol. Yn y gorffennol, gwelwyd mai ychydig iawn o siaradwyr Cymraeg addas, cymwys a phrofiadol

sy'n cael eu denu i ymgeisio am swyddi penodol yn yr Awdurdod, ond rydym yn ffodus fod gennym 5 aelod ymroddedig, brwd a gweithgar yn y ganolfan ar hyn o bryd, ac mae un ohonynt yn mynd ar gwrs i wella'i sgiliau.

11.2 PI2: Adnoddau dynol – sgiliau

11.2.1 Nifer a chanran y staff:

- (a) sydd wedi cael hyfforddiant dysgu Cymraeg hyd at lefel benodol o gymhwyster:

Lefel cymhwyster	Nifer y staff	% o'r holl staff
Lefel 'A'	5	3
'TGAU' / Lefel 'O'	34	20

Roedd dros 40 o staff eraill wedi cael ystod o hyfforddiant iaith Gymraeg o sesiynau 'Cymraeg i'r Teulu'; 'yn yr ysgol' hyd at lefel 'medrus'.

- (b) sydd wedi cael hyfforddiant ennyn ymwybyddiaeth o'r iaith.

Gweler paragraff 3 uchod.

11.2.2 *Gwybodaeth ategol:*

Fel y soniwyd eisoes, mae'n parhau'n anodd recriwtio staff mewn rhai meysydd sydd â'r sgiliau angenrheidiol yn ogystal â'r gallu i siarad Cymraeg. Serch hynny, bydd yr Awdurdod yn parhau i annog staff i ddysgu'r iaith a bydd yn parhau i ymchwilio i wahanol ffynonellau a dulliau o ddysgu.

11.3 PI3: Adnoddau dynol – cydraddoldeb ac amrywiaeth

11.3.1 Mae 32 gweithiwr (20% o weithlu'r Awdurdod) yn medru siarad Cymraeg. Mae 16 yn disgrifio'u hunain fel rhugl, ac mae'r 16 arall yn disgrifio'u hunain yn "llai rhugl". Mae hynny'n ostyngiad bychan ar ffigur y llynedd, sef 21%.

11.3.2 Nifer a chanran y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg fesul:

- (a) Is-adran gwasanaeth:

Gwasanaeth	Nifer staff	Canran
Cadwraeth a chynllunio	6	4%
Hamdden/Cyfathrebu/Safleoedd	19	12%
Prif Weithredwr/Gwasanaethau Cymorth	7	4%

- (b) Graddau cyflog swyddi:

Gradd	Nifer staff	Canran
Graddau 1 – 3	14	8%
Graddau 4 – 6	9	6%

SO1 ac uwch	9	6%
-------------	---	----

(c) Gweithle:

Gweithle	Nifer staff	Canran
Llanion	11	7%
Staff allanol	9	6%
Canolfannau ymwelwyr	4	2%
Castell Caeriw/Castell Henllys	8	5%

11.3.2 Gwybodaeth ategol:

Gweler paragraff 11.2.2 uchod.

11.4 PI4: Safonau'r gwasanaethau iaith Gymraeg

11.4.1 Nifer y cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â'r modd y gweithredir y Cynllun Iaith a'r ganran yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol yr Awdurdod.

Nifer y cwynion a gafwyd:	0
Nifer y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â'r safonau corfforaethol:	Amh.

Derbynnir bod diffyg cwynion, neu braidd ddim cwynion, yn dangos, o bosibl, nad yw'r cyhoedd yn pryderu rhyw lawer am y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan yr Awdurdod; serch hynny, gellir ei ystyried hefyd yn arwydd cadarnhaol nad oes yr un unigolyn a fu'n ymwneud â'r Awdurdod wedi teimlo mor anfodlon fel bod angen iddo gwyno.

12. Casgliad

12.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ymroddedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac i gyfrannu at gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog. Yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2008, rhagwelir erbyn 2035 y bydd y trefi, y pentrefi a'u cymunedau yn amrywiol ac unigryw, a bydd yr iaith Gymraeg yn ffynnu ym mhob rhan o'r Parc.

12.2 Rydym wedi mabwysiadu templed ar gyfer adrodd i'r Awdurdod, sy'n ysgogi swyddogion i ystyried a yw eu polisi/cynnig yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

12.3 O fewn yr Awdurdod ei hun, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn, a byddwn yn annog y staff presennol i ddysgu Cymraeg. Er gwaethaf y problemau a gafwyd gyda recriwtio yn y gorffennol, byddwn yn gwneud ein gorau i recriwtio staff dwyieithog i'r swyddi hynny lle barnwn fod y Gymraeg yn hanfodol.

13. Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad

13.1 Ar hyn o bryd caiff perfformiad yr Awdurdod ar sail ei Gynllun Iaith Gymraeg ei adrodd yn flynyddol yn y Cynllun Corfforaethol. Yn y dyfodol caiff y perfformiad hwnnw ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a ffurfiwyd yn ddiweddar.

13.2 Caiff yr adroddiad monitro hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

RHESTR O GYHOEDDIADAU 2011/12

1. Cyhoeddiadau di-dâl

Gwybodaeth gyffredinol:	laith
Taflenni cyffredinol y Parc Cenedlaethol	Fersiynau ar wahân mewn Cymraeg, Iseldireg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Phwyleg
Gweithgareddau:	laith
Diogelwch yn Gyntaf	Dwyieithog
Côd Beicio	Dwyieithog
Côd Arferion Plymio	Dwyieithog
Cyfngiadau Dringo Cytûn	Dwyieithog
Cymerwch Her Llwybr ur Arfordir	Dwyieithog
Hyrwyddo:	laith
Castell Caeriw	Dwyieithog
Castell Henllys	Dwyieithog
Oriel y Parc	Dwyieithog
Canolfan Groeso Dinbych-y-pysgod	Dwyieithog
Coast to Coast	Saesneg yn bennaf, gyda rhai erthyglau Cymraeg. Fersiwn 'tudalennau tro' Cymraeg ar gael ar-lein.
Addysgol:	laith
Darganfod eich Parc	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Mas Draw	Dwyieithog
Arall:	laith
Cynnyrch Cilrhedyn	Dwyieithog
Help ar gyfer bywyd gwyllt ar eich tir	Dwyieithog
Rhaglen cyngerdd dathlu pen-blwydd yn 60 oed	Dwyieithog
Llwybr Ditectif Gwyrdd(Oriel y Parc)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Ysbrydoliaeth i Bawb (Oriel y Parc)	Dwyieithog
Hwyl yn yr Oriel (Oriel y Parc)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

2. Cyhoeddiadau i'w gwerthu

Arweinlyfrau:	laith
Siart Milltiroedd Llwybr yr Arfordir	Dwyieithog

Pembrokeshire Beaches Guide	Saesneg yn unig, gyda chapsiynau Cymraeg maint mawr
Antur Teithio Trwy Amser	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Tywyslyfrau:	laith
Dale and St Ishmaels	Saesneg yn unig tan ddaw'r stoc i ben: ni chaiff ei ailargraffu
Daugleddau	Saesneg yn unig tan ddaw'r stoc i ben: ni chaiff ei ailargraffu
Darganfod Llwybr yr Arfordir	Dwyieithog
Llwybrau i Bawb	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Trysorau Trefdraeth	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Cyfrinachau Saundersfoot	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Llwybr Chwilota Dinbych-y-Pysgod	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Tywyslyfrau:	laith
Taflen Llwybr yr Arfordir 1	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 2	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 3	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 4	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 5	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 6	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 7	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 8	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 9	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 10	Dwyieithog
Bedd Morris	Dwyieithog
Aber y Nyfer	Dwyieithog
Swnt Dewi	Dwyieithog
Tyddewi - Caerfai – Porth Clais	Dwyieithog
Penmaendewi	Dwyieithog
Y Porth Mawr	Dwyieithog

3. Cyhoeddiadau corfforaethol

Teitl	laith
Y Strategaeth Gorfforaethol	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Cynllun Gwella	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Financial Standards	Saesneg yn unig
Cynllun Hamdden	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Canllawiau Cynllunio Sir Benfro	Dwyieithog
Canllawiau Cynllunio Atodol :	
Colli gwestai a thai gwestai	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Rhwymedigaethau cynllunio	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Landscape character assessment	Saesneg yn unig
Dylunio cynaliadwy	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Parthau diogelu mwynau	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Ansefydlogrwydd tir – hen weithfeydd glo	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Parking standards	Saesneg yn unig
Yr amgylchedd hanesyddol (archeoleg)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Safleoedd geoamrywiaeth pwysig rhanbarthol yn Sir Benfro	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Dylunio blaen siop	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Ynni adnewyddadwy	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân